

## **13.5 DYFARNU TEITL ATHRO: GWEITHDREFN AR GYFER DYFARNU ATHRAWON GWADD**

## **PRIFYSGOL FETROPOLITAN CAERDYDD**

### **DYFARNU TEITL ATHRO: GWEITHDREFN AR GYFER DYFARNU ATHRAWON GWADD**

#### **1. Cyflwyniad**

1.1 Mae'r cofnod hwn yn y Llawlyfr Academaidd yn disgrifio'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd ar gyfer dyfarnu Cadeiriau Athrawon Gwadd.

#### **2. Cymhwysedd**

2.1 Dylai personau a enwebir ar gyfer eu penodi fel Athrawon Gwadd fod yn ysgolheigion nodedig ac fel arfer dylent fod eisoes yn Athrawon mewn prifysgolion eraill; nid yw'r rhai sydd wedi gadael eu prifysgol i ymgymryd â gwaith sydd yn ei hanfod yn academaidd y tu allan i'r brifysgol neu'r rhai sydd wedi ymddeol yn ddiweddar oherwydd gweithgarwch parhaus mewn 'cyflogaeth sefydlog mewn man arall,' yn gymwys ar gyfer teitl Athro Emeritws.

#### **3. Meini Prawf Cadeiriau Athrawon Gwadd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd**

3.1 Rhaid i bob ymgeisydd ar gyfer swydd Athro Gwadd allu dangos y canlynol yn eu cais:

- (i) Cyfraniad eithriadol parhaus i hyrwyddo gwybodaeth drwy un neu unrhyw rai o'r canlynol ar y cyd:
  - a. Dysgu ac Addysgu wedi'i gefnogi gan dystiolaeth briodol: er enghraifft, portffolio o gyhoeddiadau a chyflwyniadau addysgeg pwysig, cynllunio'r cwricwlwm a dangosyddion pwysig cydnabyddedig ar lefel ryngwladol fel cymrodoriaeth addysgu genedlaethol, profiad allanol o werthuso dysgu ac addysgu (e.e. QAA) ac arian ar gyfer datblygiadau dysgu ac addysgu;
  - b. Ymchwil a gefnogir gan dystiolaeth briodol: er enghraifft, portffolio o gyhoeddiadau neu allbynnau ymchwil rhyngwladol helaeth a adolygwyd gan gymheiriaid perthnasol i'r ddisgyblaeth, ymchwil allanol sylweddol ac uchel ei fri wedi'i ariannu; goruchwylio ymchwil llwyddiannus a phrofiad arholi a dangosyddion pwysig cydnabyddedig megis gwobrau,

gwahoddiadau i gyflwyno prif gyflwyniadau rhyngwladol a gwasanaethu mewn sefydliadau, byrddau a phwyllgorau allanol;

- c. Arloesi a gefnogir gan dystiolaeth briodol: er enghraifft, portffolio o allbynnau pwysig sy'n berthnasol i weithgareddau trosglwyddo gwybodaeth, arloesi neu entrepreneuriaeth, record sylweddol o gyllid allanol ar gyfer arloesi; ymelwa ar eiddo deallusol a dangosyddion pwysig cydnabyddedig ar lefel rhyngwladol fel rolau cynghori allanol amlwg a chyllid ar gyfer prosiectau arloesi; a,

- (ii) Phrofiad sylweddol o arweinyddiaeth a/neu reoli sy'n gysylltiedig â'r maes academaidd sy'n berthnasol i gais yr ymgeisydd unigol.

#### **4. Y Pwyllgor Cadeiriau Athrawon a Darllenwyr**

4.1 Mae gan Y Pwyllgor Cadeiriau Athrawon a Darllenwyr y grym i ystyried ceisiadau ar gyfer Cadeiriau Personol.

4.2 Cyfansoddiad y Pwyllgor Cadeiriau Athrawon a Darllenwyr yw:

- Llywydd ac Is-Ganghellor (Cadeirydd)
- Dirprwy Is-Ganghellor Academaidd
- Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi
- Dirprwy Is-Ganghellor Gwella Myfyrwyr
- Tri Athro wedi'u hethol gan y Bwrdd Academaidd.

4.3 Bydd y tri aelod etholedig yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod o ddwy flynedd gyda'r posibilrwydd o ailbenodi am hyd at gyfanswm o bedair blynedd yn barhaus.

4.4 Bydd gan y Pwyllgor hefyd yr opsiwn i gyfethol aelodau mewnol dros dro i'r Pwyllgor lle bo hynny'n briodol.

4.5 Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Pwyllgor Cadeiriau Athrawon a Darllenwyr ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag ymgeiswyr ar ddechrau pob cyfarfod Pwyllgor.

#### **5. Gweithdrefn Ddyfarnu**

5.1 Ystyrir ceisiadau ar gyfer teitl Athro Gwadd ar ddwy adeg yn y flwyddyn academaidd yn ystod tymhorau'r hydref a'r gwanwyn. Cyhoeddir dyddiadau cyflwyno yn flynyddol ar wefan Adnoddau Dynol.

Llawlyfr Academaidd 2018/19 – Cyfrol 1 – 13.5 – Dyfarnu Teitl Athro: Gweithdrefn ar gyfer Dyfarnu Athrawon Gwadd – Cyflwynwyd yn gyntaf 26.05.99; addaswyd 21.06.06, 01.11.11, 15.11.13, 12.09.14, 22.04.16, 01.01.18; addaswyd ddiwethaf 14.11.18

- 5.2 Dylai ymgeiswyr gyflwyno cais yn ysgrifenedig i Adnoddau Dynol, wedi'i gyfeirio at y Llywydd a'r Is-Ganghellor. Dylai'r cais gynnwys cyfiawnhad manwl ar gyfer y dyfarniad o heb fod yn fwy na phedair tudalen A4 mewn teip safonol gan gyfeirio'n glir at y meini prawf a nodwyd yn adran 3, ynghyd â curriculum vitae llawn. Dylai ymgeiswyr wneud y canlynol yn glir yn eu cais:
- (i) Pa rai o'r dangosyddion datblygu gwybodaeth yn 3.1(i) y mae eu cais yn canolbwyntio'n bennaf arnynt (h.y., dysgu ac addysgu, ymchwil, arloesi) ynghyd â gwybodaeth ychwanegol sy'n mynd i'r afael â'r dangosyddion sy'n weddill;
  - (ii) Teitl Athro arfaethedig yr ymgeisydd os caiff ei ddyfarnu (e.e., *Athro Gwadd Seicoleg*).
- 5.3 Dylai'r cais gynnwys enwebiad ysgrifenedig llawn a manwl gan Ddeon Ysgol yr ymgeisydd (neu unigolyn cyfatebol). Bydd enwebiadau o'r fath yn cynnwys manylion am y rôl y bydd y person a enwebwyd yn perfformio yn yr Ysgol neu o fewn Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn ystod cyfnod y penodiad. Dylai Deon ysgol hefyd anfon enwau tri chanolwr.
- 5.4 Bydd y Pwyllgor yn ystyried cais yr ymgeisydd, ynghyd â'r geiradaon a gafwyd a gwneud penderfyniad ar y cyd. Hefyd bydd ganddynt bŵer i argymhell, os bydd angen, y dylid cael cyngor allanol ychwanegol ar wahân.
- 5.5 Os bydd y Pwyllgor Cadeiriau Athrawon a Darllenwyr yn penderfynu dyfarnu'r teitl, bydd Adnoddau Dynol yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig i'r unigolyn. Bydd y Bwrdd Academaidd hefyd yn cael gwybod am y dyfarniad.

## 6. Amodau

- 6.1 Bydd y penodiad am gyfnod o hyd at bum mlynedd yn y lle cyntaf gyda'r posibilrwydd o ailbenodi am gyfnodau tebyg fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor Cadeiriau Athrawon a Darllenwyr ac yn amodol ar gais yr Ysgol berthnasol a chytundeb yr unigolyn dan sylw.
- 6.2 Gallai'r Ysgol berthnasol drefnu mynediad i TG a gwasanaethau Llyfrgell ac i adeiladau'r Brifysgol yn ôl yr angen. Gall Athrawon Gwadd ddefnyddio eu teitl mewn perthynas â'r Brifysgol at ddibenion cyhoeddi/cyhoeddusrwydd ond nid yw'r teitl yn awgrymu unrhyw statws cyflogaeth neu hawl i gydnabyddiaeth.

- 6.3 Mae Pwyllgor Cadeiriau Athrawon a Darllenwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn cadw'r hawl i ddirymu'r teitl Athro Gwadd ar unrhyw adeg. Caiff y Bwrdd Academaidd ei hysbysu am dynnu'r teitl yn ôl a'r dyddiad y daeth i rym.
- 6.4 Ni chaiff personau a benodir fel Athrawon Gwadd weithredu fel arholwyr allanol ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd.
- 6.5 Os dymuna Athro Gwadd wneud cais am swydd wag gyda Met Caerdydd, bydd angen mynd drwy broses recriwtio ffurfiol yn seiliedig ar y weithdrefn Cadair Bersonol allanol. Nid oes unrhyw ofyniad i Athro Allanol eistedd ar y panel cyfweld, gan y byddai barn allanol eisoes wedi'i cheisio fel rhan o weithdrefn yr Athro Gwadd.

## 7. Cyfle Cyfartal

- 7.1 Yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl weithgareddau. Fel y cyfryw, bydd unigolion yn cael eu dyrchafu ar sail eu rhinweddau a'u galluoedd. Bydd y Pwyllgor Cadeiriau Athrawon a Darllenwyr yn ystyried amgylchiadau nad ydynt yn rhai academaidd a allai fod wedi cyfyngu neu oedi datblygiad gyrfa broffesiynol ymgeisydd o ran swm yn hytrach nag ansawdd yr allbynnau a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r teitl.